**CYNGOR BRO MACHNO**

**Cofnodion** cyfarfod 9 Mawrth, 2017 a gynhaliwyd yn Festri Salem am 7.30.

**Presennol:** Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Colin Jones, Eryl Owain ac Aled Roberts.

Ymddiheuriadau gan Dafydd Hughes, Geraint Thomas a Dewi Jones.

**Derbyniwyd cofnodion** cyfarfod o'r Cyngor ar 26 Ionawr, 2017 fel rhai cywir.

Trafodwyd y materion canlynol:

**Toiledau** – cadarnhawyd bod y gwaith bron wedi ei gwblhau ac y bydd Cyngor Sir Conwy'n trosglwyddo'r eiddo i Gyngor Bro Machno yn fuan. Penderfynwyd gofyn i Edward Nutting o Lanrwst i weithredu fel cyfreithiwr ar ran y cyngor bro.

**Materion Ffyrdd** – adroddwyd yn ôl ar gyfarfod a gafodd y cadeirydd a'r clerc efo Kevin Jones o Adran Briffyrdd y cyngor sir i drafod nifer o faterion.

**Maes parcio ger yr Hen Ysgol** – penderfynwyd ystyried yr angen am gael gwastraff arwyneb ffordd os bydd angen lefelu'r maes parcio a'r un ger Capel Salem.

**Llwybr y Waen** – adroddwyd bod baw cŵn yn parhau'n broblem a phenderfynwyd cysylltu eto â'r warden cŵn.

**Mynwent Arwelfa** – adroddwyd nad oes arwyddion bod cyflwr y wal wedi gwaethygu ond cadarnhawyd bod angen cadw golwg arni.

**Cartrefi Conwy** – penderfynwyd trefnu cyfarfodydd efo'r Cynghorydd Wyn Ellis Jones yn bresennol efo *Cartrefi Conwy* i drafod amryw o faterion yn cynnwys cerbydau wedi eu gadael yn y maes parcio ger Bron-y-waen, cyflwr y tir sy'n eiddo iddynt a'r angen am well mynediad i'r maes parcio.

**Materion traffig** – penderfynwyd trefnu cyfarfodydd efo'r Cynghorydd Wyn Ellis Jones yn bresennol efo Adran Draffig y cyngor sir i drafod yr angen i reoli cymflymdra ar Ffordd Cwm ac ar y B4406 ger Ty'n-y-groes.

**Carrog** – penderfynwyd cysyllty â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i holi beth yw eu bwriad gyda'r ffarm gan fod llawer o bryder yn lleol.

**Blwch ffôn** – penderfynwyd gwrthwynebu unrhyw fwriad gan BT i ddiddymu'r blwch ffôn ger rhesdai Carrog ac yng Nghwm Penmachno ac i gyslltu â Haf Jones yn Llanrwst, sy'n delio â'r mater.

**Menter Bro Machno** – angen gwneud ymholiadau am gynlluniau MBM i'r dyfodol.

**Etholiadau Cyngor Cymuned** – dywedodd Aled Roberts na fyddai'n ail-sefyll (wedi 45 mlynedd) a chafwyd wybod na fyddai Dafydd Hughes a Cyril Lewis yn ail-sefyll. Diolchodd y cadeirydd i'r tri am eu gwasanaeth dros y blynyddoedd.

Penderfynwyd cynnal cyfarfod ar 23 Mawrth i aelodau oedd yn dymuno parhau er mwyn cwblhau'r ffurflenni enwebu.

**Materion Ariannol** – cadarnhawyd taliadau o £516 i John Evans am y gwaith ac £1049 i gwmni'r Brodyr Cawley am ddefnyddiau.

Penderfynwyd adnewyddu aelodaeth o Un Llais Cymru am dâl o £124.